Confirmed Minutes of the Board Meeting held on 30 May 2019, in Room 3/7, 2 Capital Quarter, Tyndall Street, Cardiff CF10 4BQ

Present:

Jan Williams	(JW)	Chair
Tracey Cooper	(TC)	Chief Executive
Jyoti Atri	(JA)	Interim Executive Director of Health and Wellbeing
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Executive Director of Quality, Nursing and Allied Health Professionals
Dyfed Edwards	(DE)	Non-Executive Director and Chair of Audit and Corporate Governance Committee
Huw George	(HG)	Deputy Chief Executive and Executive Director of Finance and Operations
Shantini Paranjothy	(ShP)	Non-Executive Director (University)
Judi Rhys	(JR)	Non-Executive Director (Third Sector) and Chair of the People and Organisational Development Committee
Quentin Sandifer	(QS)	Executive Director of Public Health Services/Medical Director

In Attendance:

Mark Bellis (from item 6)	(MB)	Director of Policy, Research and International Development
Sian Bolton	(SB)	Interim Transition Director, Knowledge Directorate
John Boulton	(JB)	Interim Director for NHS Quality Improvement and Patient Safety/1000 Lives
Phil Bushby	(PB)	Director of People and Organisational Development

Helen Bushell	(HB)	Board Secretary and Head of Board Business Unit
Eleanor Higgins	(EH)	Corporate Governance Manager
Sophie Howe (for item 3.1)	(SH)	Future Generations Commissioner for Wales
Rebecca Campbell (for item 4.1)	(RC)	Account Manager, S3
James Field (for item 4.1)	(JF)	Communications Manager
Angela Fisher (for item 10.2)	(AF)	Assistant Director of Finance
Ashley Gould (for item 4.1)	(AG)	Consultant in Public Health (Tobacco)
Dr Ciaran Humphreys (for item 9.1)	(CH)	Director of Health Intelligence
Junaid Iqbal (for item 10.4)	(JI)	Service User Engagement Lead
John Lawson (for item 10.6)	(JL)	Chief Risk Officer
Leah Morantz (for item 4.1)	(LM)	Head of Communications
Sarah Morgan (for item 10.1)	(SM)	Diversity and Inclusion Manager
Lewis Owen (for item 10.1)	(LO)	Diversity, Inclusion and Welsh Language Officer
Sara Peacock (for item 10.1)	(SaP)	Diversity, Inclusion and Welsh Language Officer
Caren Prys-Jones (for item 10.1)	(CPJ)	Welsh Language Officer

Communication Support

Rhian Huws		Cwmni Canna Cyfyngedig (simultaneous translation)
Carwyn Williams		Digital Editor

Apologies:

Kate Eden	(KE)	Vice Chair, Non-Executive Director and Chair of Quality, Safety and Improvement Committee
Stephen Palmer	(StP)	Non-Executive Director
Alison Ward	(AW)	Non-Executive Director (Local Authority)

Stephanie Wilkins	(SW)	Representative of Staff Partnership Forum

The meeting commenced at 09:00

PHW01/2019	**Welcome**

SH joined the meeting at 09:00

JW opened the meeting and welcomed all present.

JW reminded the Board of the etiquette adopted during each meeting.

JW also welcomed all those joining via livestreaming, confirming that the papers were available on the Public Health Wales internet. JW also confirmed that the Board welcomed contributions in Welsh and that simultaneous translation was available.

PHW02/2019	**Apologies**

The Board **noted** the apologies for absence.

PHW03/2019	**Declarations of Interest**

All Board members and regular attendees declared an interest in the Remuneration and Staff Report (item 10.2).

PHW04/2019	**Sophie Howe, Future Generations Commissioner for Wales**

JW extended a warm welcome to Sophie Howe, Future Generations Commissioner, who had kindly agreed to update the Board on the work of her Office, and future plans.

SH began by commenting on the self-reflection tool developed to assist organisations' assess progress against the Act.

SH indicated that she thought Public Health Wales had been realistic in its assessment and that she highlighted the organisation as having embedded the principles of the Act, as having made significant progress and being an examplar. She referenced the role of the Health and Sustainability Hub and complimented Public Health Wales on the discharge of its system leadership role.

SH advised that she would be publishing an overview report in July 2019, summarising the findings of the self-reflection process across the health sector.

SH went on to highlight the following:

- A focus on infrastructure (housing, transport and planning) and people (jobs and skills for the future, Adverse Childhood experiences, and keeping people well)
- The "Art of the Possible" project
- Journey to a resilient Wales report, including practical actions and case studies to reflect the 7 Well-being goals

The Commissioner also referred to Public Health Wales' recent report on P*opulation Health in a Digital Age* and stressed the importance of applying this at a local, as well as national, level.

SH concluded by commenting on the need for a public health voice on Public Service Boards, the use of the £100m transformation fund and the IMTP process.

Members discussed the implications for the Public Health Wales system leadership role, the connections with Building a Healthier Wales, the importance of engaging young people and the resource requirements needed to work at scale.

The Board **noted** the outcome of the self-reflection process and congratulated the team involved in the work.

SH left the meeting 10:00

PHW05/2019 Help me Quit

AG; JF; RC joined the meeting 10:00

AG, JF, and RC made a presentation on the progressive social marketing approach used as part of *Help me Quit* and explained how this could have wider application.

The Board **noted** that our partner agency S3 had received the European digital marketing award 'The Drum' digital advertising awards Europe – 'public sector strategy/campaign' 2019.

The Board noted the:

- constructive partnership working with S3 agency using marketing techniques for social good;
- customer oriented approach, adapted to suit customer needs and responded to trends;
- transfer of skills across the two organisations
- alignment with the vision of the Future Generations Commissioner in respect of social marketing, digital technology and big data.

Members noted the work underway to build on this change in approach:

- investment in the behaviour change unit to focus on insight and intervention to support wider areas of work;
- introduction of the Knowledge Directorate to work with unstructured data as well as structured data;
- the use of social marketing science alongside behavioural change science.

MB joined the meeting 10:13

The Board **took assurance** on the use of progressive social marketing in other areas of the organisation. The Board congratulated S3 on winning the Drum award and looked forward to further updates on the approach.

PHW06/2019 Minutes from the Board Meeting on 30 March 2019

The Board **approved** the minutes as an accurate record of the meeting 30 March 2019, subject to amendment of the typographical errors (ref 5.1.300519).

PHW07/2019 Board Action Log

The Board **noted** the Action Log (ref 5.2.300519) and the two open actions due for completion on 1 July 2019 and 1 October 2019 respectively. The Board **approved** closure of the actions marked as complete.

PHW08/2019 Chief Executive's report

The Board **received** the Chief Executive's Report (ref 5.3.300519)

TC drew the Board's attention to the visit by the World Health Organisation delegation from the Venice office in April 2019. She went on to summarise the possible subsequent opportunities for Wales, and Public Health Wales.

TC referenced the *Review of Maternity Services in Cwm Taf Health Board* and confirmed a Board development session to consider the learning from the report.

MB provided an update on a recent invitation to provide advice to a UK Ministerial task force on public health approaches to violence prevention and reduction. Public Health Wales would continue to support the Task Force, and members acknowledged the significance of this.

QS updated the Board on the Revalidation Support Unit's recent assessment of Public Health Wales medical appraisal and revalidation systems. The positive feedback included just 5 Recommendations, with the team being complimented particularly on their direct personal engagement with individual doctors. The Board thanked QS and Brendan Mason for their significant contributions to this successful outcome.

PHW09/2019	**Integrated Performance Report encompassing Year end, Wellbeing of Future Generations Act and Month One**

The Board **received** the performance report, which incorporated the month 12 report; background for operational plan updates; an abridged month 1 performance report; and the Annual Well-being and Future Generations report (ref 8.1.300519). HG reminded the Board of work underway to continually improve the presentation of data.

Operational performance
The Board **noted** the improvements in those performance issues subject to scrutiny at previous Board meetings.

The Board **commented** on those actions not completed in Q4, with particular reference to those attributable to the Health and Well-Being Directorate.

JA explained that recruitment delays had contributed to the position in year and outlined the steps being taken to secure improvements in 2019/20.

TC also advised the Board of the actions being taken at executive level.

People and Organisational Development
The **Board** noted the improvement in compliance with Statutory and Mandatory Training and thanked colleagues for their support in achieving this.

Financial performance
The Board **noted** the inclusion of year-end accounts on the agenda. The Board **recorded** its appreciation of all the hard work undertaken across the organisation to achieve the year-end financial position.

Well-being of Future Generations Act Annual Report
The Board **received** the Well-being of Future Generations Act Annual Report and **noted** the following achievements:

- a raised awareness of the 5 ways of working;
- Public Health Wales' role in system leadership through sharing experiences and learning;
- the signed Memorandum of Understanding with Natural Resources Wales;
- motivating people to 'walk the walk';
- the Sustainable Improvement for Teams (SIFT) tool to assist in evidencing organisational change;
- the alignment of the Well-being objectives with the strategic priorities.

The Board agreed to conduct a Strategic Review of the Well-Being Objectives in the Autumn.

Action: MB

Month 1 integrated performance report
The Board **noted** the month 1 performance report.

The Board resolved to take **assurance** from the performance report, noting the issues raised above.

PHW10/2019 Update on the impact of leaving the European Union

The Board **received** an update on the impact of leaving the European Union, the new proposed date for which being noted as 31.10.2019. (ref 8.2.3005219)

The Board **resolved** to take **assurance** from the plans outlined in the report.

PHW11/2019 Strategic Priority Update: Mortality and Life Expectancy

CH joined the meeting: 11:15

The Board **considered** a paper on Mortality and Life Expectancy (ref 9.1.300519).

CH explained that the pattern of mortality and life expectancy, which had been rising since World War 2, had plateaued from 2010/11. He reminded the Board of the importance of life expectancy as an indication of population health. The shift in pattern from 2010/11 was a striking epidemiological challenge; whilst part of an international phenomenon, Wales and Scotland had seen a particular impact within the UK, as had the US, on an international basis.

The Board **noted** the position and **resolved** to discuss the matter in more detail at a future Board Development session.
Action: HB/SB

PHW12/2019 Welsh Language Standards and annual report 2018-19

SM; LO, CP-J, SP joined the meeting at 11:40

The Board **received** the Welsh Language Scheme monitoring report (ref 10.1.300519) and the Welsh Language Standards report (ref 1.290519)

PB/JW explained that the Welsh Language Standards report had been discussed during an extraordinary Board meeting on 29 May 2019, when the Board had **taken assurance** from our good progress being made in respect of the Standards; and had **approved** the proposal to challenge eight of the Standards.

The Board congratulated the team on the progress made to date.

JW commented on the benefits derived from a recent meeting with the South Wales Police Welsh Language Champion; all present had been struck by the use of a skills policy and PB advised of the work underway on this internally.

SM; LO, CP-J, SP left the meeting at 12:05

PHW13/2019 Accountability report and financial statements

AF and JI joined the meeting at 11:50

The Board **received** the Accountability report and Financial Statements (ref 10.2.300519 and 10.3.300519)

The Board **noted** that following its meeting on 29 May 2019, the Audit and Corporate Governance Committee formally recommended the Accountability report and Financial Statements to the Board for approval.

The Board **noted** that the Wales Audit Office intended to issue an unqualified audit opinion, as detailed in the ISA 260.

The Board **approved** the Accountability Report and Financial Statements for 2018/19.

The Board expressed its thanks to those involved in the preparation of the Accountability report and Financial Statements.

HG agreed to circulate the ISA 260 and letter of representation electronically.
Action: HG

AF left the meeting at 12.10

PHW14/2019 Annual Quality Statement

The Board **received** the Annual Quality Statement for 2018/19 (ref 10.4.300519)

RBW informed the Board that, with the report being written with the public in mind, the Senior Leadership Team and each of the local public health teams had provided the content. Members of the asylum seekers and refugee community had provided the artwork for the report cover, supported by Oasis Cardiff. The artwork represented an interpretation of their home life and their journey to Wales. The artists would be invited to attend the AGM in July.

The Board also noted the preparation of a young person's Annual Quality Statement, to be presented at the AGM in July.

The Board offered their thanks to JI and all those involved in completing the Quality Statement.

The Board **resolved** to **approve** the Annual Quality Statement 2018/19

JL joined the meeting at 12:00
JI left the meeting at 12:05

PHW15/2019 Board Assurance Framework

The Board **received** the Board Assurance Framework (ref 10.5.300519)

The Board **noted** that future iterations of the Board Assurance Framework (from Autumn onwards) would provide additional assurance mapping. The Board also noted an inaccuracy in the cover sheet, in which risk 5 should read a reduction of current risk score from 20 to 10.

The Board **noted** the updates provided since the Board meeting held on 29 March 2019 and **resolved** to approve the revised 'due dates'.

PHW16/2019 Corporate Risk Register

The Board **received** the Corporate Risk Register (ref 10.6.300519).

The Board **noted** that, at its next meeting, the Executive Team was likely to de-escalate risk 897 relating to cyber security and data processing.

The Board **noted** that all other risks remained on target.

JL left the meeting at 12:20

PHW17/2019 Composite Committee Chair's report

The Board **received** the composite report from the Committee Chairs (ref 10.8.300519)

Audit and Corporate Governance Committee
DE presented the report from the meeting on 1 May 2019, commenting particularly on the annual reasonable assurance rating received from internal audit.

DE concluded by updating the Board on the Committee workshop held earlier in the month, where the key learning point had been the benefit of providing time and space for the Committee to reflect on its purpose and work programme.

Quality, Improvement and Safety Committee
RBW (in KE's absence) explained that the Committee had acknowledged the need to further develop its approach to assurance, particularly in relation to the Quality and Impact framework.

Knowledge, Research and Information Committee
SP confirmed that the first meeting of the Committee had taken place on 17 April and had gone well.

People and Organisational Development Committee
JR introduced the report from the meeting on 24 April 2019, commenting on the work programme in the coming months; this reflected the way in which the committee was developing. Members would take time out in July to reflect further on the work programme.

The Board **noted** that the work plans were subject to change during the year and that the Committees had scrutiny of the corporate policy and procedure register.

The Board resolved to **note** the report from Committee Chairs.

PHW18/2019 Items for noting

QS provided an oral update on MMR (Measles, Mumps and Rubella) uptake in Wales and the Board took **assurance** from the briefing that uptake rates were improving and consistent with the rest of the UK. QS explained that, even though there were some pockets of vaccine resistance, recent outbreaks of Measles resulted from imported disease.

QS also provided an update on recent Mumps cases, currently at the highest level in 5 years, reflective of the position across the UK.

PHW19/2019 Date of next meeting

25 July 2019 University of South Wales, Newport City Campus. The AGM would follow the Board meeting.

JW closed the meeting in public session at this point, explaining the reasons behind any subsequent meeting in private session.

The Public Session closed at 12.00

The Board met in Private Session to consider business of a confidential nature, publicity of which would be prejudicial to the public interest in accordance with Section 1(2) Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960. A summary of the items discussed is recorded below:

Private Session

The meeting commenced at 12.30

PHW20/2019 Welcome and Apologies

JW opened the meeting and welcomed all present.

The Board **noted** the apologies for absence.

PHW21/2019 Declarations of Interest

QS declared an interest in the report from the Remuneration and Terms of Service Committee (item 17).

PHW22/2019 Minutes of the Private Session of the Board held on 24 January 2019

The Board **approved** the minutes (ref PM 16.1.300519) as an accurate account of the meeting.

PHW23/2019 Board Action Log

The Board **noted** the Action Log (ref PM 16.2.300519). The Board **noted** the completion of all actions and **approved** their closure.

PHW24/2019 Matters Arising

There were no matters arising.

PHW25/2019 Report from Remuneration and Terms of Service Committee

The Board **received** the report from the Remuneration and Terms of Service Committee (PM 17.280319).

The Board **resolved** to:

- **Note** the correction to the remuneration package of the Executive Director of Public Health Services / Medical Director;
- **Note** the approved Voluntary Early Release Scheme application to the value of £43,772.00.

PHW26/2019 Any Other Urgent Business

QS confirmed that a screening exercise and media campaign would take place to manage an outbreak of TB in a small community in south west Wales.

TC provided further detail on the Maternity Services report, in preparation for the Board development session in June. Members noted the actions in hand and that the 1000 Lives Team was working with Cwm Taf Morgannwg University Health Board.

The Board **noted** the update and the planned Board Development session.

PHW27/2019 Date and time of Next Private Session of the Board

27 July 2019, Room 3.7, 2 Capital Quarter, Tyndall St, Cardiff

The meeting closed at 13:20

Cofnodion wedi'u Cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Mai 2019, yn Ystafell 3/7, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BQ

Yn bresennol:

Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Jyoti Atri	(JA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gweithrediadau
Shantini Paranjothy	(ShP)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol
Quentin Sandifer	(QS)	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Meddygol

Hefyd yn Bresennol:

Mark Bellis (o eitem 6 ymlaen)	(MB)	Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol
Sian Bolton	(SB)	Cyfarwyddwr Pontio Dros Dro, Y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Dros Dro Ansawdd, Gwella a Diogelwch Cleifion y GIG/1000 o Fywydau
Phil Bushby	(PB)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl

Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Eleanor Higgins	(EH)	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol
Sophie Howe (ar gyfer eitem 3.1)	(SH)	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Rebecca Campbell (ar gyfer eitem 4.1)	(RC)	Rheolwr Cyfrif, S3
James Field (ar gyfer eitem 4.1)	(JF)	Rheolwr Cyfathrebu
Angela Fisher (ar gyfer eitem 10.2)	(AF)	Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol
Ashley Gould (ar gyfer eitem 4.1)	(AG)	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus (Tybaco)
Dr Ciaran Humphreys (ar gyfer eitem 9.1)	(CH)	Cyfarwyddwr Gwybodaeth Iechyd
Junaid Iqbal (ar gyfer eitem 10.4)	(JI)	Arweinydd Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth
John Lawson (ar gyfer eitem 10.6)	(JL)	Prif Swyddog Risgiau
Leah Morantz (ar gyfer eitem 4.1)	(LM)	Pennaeth Cyfathrebu
Sarah Morgan (ar gyfer eitem 10.1)	(SM)	Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant
Lewis Owen (ar gyfer eitem 10.1)	(LO)	Swyddog Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Gymraeg
Sara Peacock (ar gyfer eitem 10.1)	(SaP)	Swyddog Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Gymraeg
Caren Prys-Jones (ar gyfer eitem 10.1)	(CPJ)	Swyddog y Gymraeg

Cymorth Cyfathrebu

Rhian Huws		Cwmni Canna Cyfyngedig (cyfieithu ar y pryd)
Carwyn Williams		Golygydd Digidol

Ymddiheuriadau:

Kate Eden	(KE)	Dirprwy Gadeirydd, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelu a Gwella
Stephen Palmer	(StP)	Cyfarwyddwr Anweithredol

Alison Ward	(AW)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd y Fforwm Partneriaeth Staff

Dechreuodd y cyfarfod am 09:00

PHW01/2019	**Croeso**

Ymunodd SH â'r cyfarfod am 09:00

Agorwyd y cyfarfod gan JW a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol.

Atgoffodd JW y Bwrdd am y safonau ymddygiad i'w dilyn ym mhob cyfarfod.

Croesawodd JW hefyd bawb a oedd yn ymuno drwy ffrydio byw, a chadarnhaodd fod y papurau ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cadarnhaodd JW hefyd fod y Bwrdd yn croesawu cyfraniadau yn y Gymraeg a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

PHW02/2019	**Ymddiheuriadau**

Nododd y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

PHW03/2019	**Datgan Buddiannau**

Datganwyd buddiant gan holl aelodau'r Bwrdd yn yr Adroddiad Tâl a Staff (eitem 10.2).

PHW04/2019	**Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

Estynnodd JW groeso cynnes i Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a oedd wedi cytuno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am waith ei Swyddfa a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Dechreuodd SH drwy wneud sylwadau ar yr offeryn hunanfyfyrio a ddatblygwyd i helpu sefydliadau i asesu cynnydd yn erbyn y Ddeddf.

Dywedodd SH ei bod o'r farn bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn realistig yn ei asesiad a thynnodd sylw at y ffaith bod y sefydliad wedi ymgorffori egwyddorion y Ddeddf, ac wedi gwneud cynnydd sylweddol a'i fod yn esiampl i eraill. Cyfeiriodd at rôl y Ganolfan Iechyd a Chynaliadwyedd a chanmolodd Iechyd Cyhoeddus Cymru am y ffordd y mae'n cyflawni ei rôl o ran arwain y system.

Dywedodd SH y byddai'n cyhoeddi adroddiad trosolwg yn ystod mis Gorffennaf 2019, a fyddai'n crynhoi canfyddiadau'r broses hunanfyfyrio ar draws y sector iechyd.

Aeth SH ymlaen i dynnu sylw at y canlynol:

- Ffocws ar seilwaith (tai, trafnidiaeth a chynllunio) a phobl (swyddi a sgiliau ar gyfer y dyfodol, Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod, a chadw pobl yn iach)
- Y prosiect "Y Gallu i Greu"
- Adroddiad Taith at Gymru gydnerth, gan gynnwys camau gweithredu ymarferol ac astudiaethau achos i adlewyrchu'r 7 nod Llesiant

Cyfeiriodd y Comisiynydd hefyd at adroddiad diweddar Iechyd Cyhoeddus Cymru ar *Iechyd y Boblogaeth mewn Oes Ddigidol* a phwysleisiodd bwysigrwydd cymhwyso hyn ar lefel leol, yn ogystal â lefel genedlaethol.

Gorffennodd SH drwy roi sylw i'r angen am lais iechyd y cyhoedd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, defnyddio'r gronfa drawsnewid gwerth £100 miliwn a'r broses o lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Trafododd yr aelodau'r goblygiadau i rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran arwain y system, y cysylltiadau gyda Creu Cymru Iachach, pwysigrwydd ymgysylltu â phobl ifanc a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn gweithio ar raddfa fawr.

Nododd y Bwrdd ganlyniad y broses hunanfyfyrio a llongyfarchwyd y tîm a fu'n gysylltiedig â'r gwaith.

Gadawodd SH y cyfarfod am 10:00

PHW05/2019 Helpa Fi i Stopio

Ymunodd AG; JF; RC â'r cyfarfod am 10:00

Cafwyd cyflwyniad gan AG, JF, a RC ar y dull marchnata cymdeithasol blaengar a ddefnyddiwyd fel rhan o *Helpa Fi i Stopio* ac esboniodd sut y gellir defnyddio hyn yn ehangach.

Nododd y Bwrdd fod ein hasiantaeth bartner, S3, wedi ennill gwobr marchnata digidol Ewrop 'The Drum' am 'strategaeth/ymgyrch y sector cyhoeddus' 2019.

Nododd y Bwrdd y:

- gwaith partneriaeth adeiladol gydag asiantaeth S3 a'r defnydd o dechnegau marchnata er budd cymdeithas;
- dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, wedi'i addasu i weddu i anghenion y cwsmer ac a oedd yn ymateb i dueddiadau;
- trosglwyddo sgiliau rhwng y ddau sefydliad;
- cysoni gyda gweledigaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o ran marchnata digidol, technoleg ddigidol a data mawr.

Nododd yr aelodau y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r newid hwn i'r dull gweithredu:

- buddsoddi yn yr uned newid ymddygiad er mwyn canolbwyntio ar fewnwelediad ac ymyrraeth i gefnogi meysydd gwaith ehangach;
- cyflwyno'r Gyfarwyddiaeth Wybodaeth i weithio gyda data anstrwythuredig a data strwythuredig;
- defnyddio gwyddoniaeth marchnata gymdeithasol ochr yn ochr â gwyddoniaeth newid ymddygiad.

Ymunodd MB â'r cyfarfod am 10:13

Cafodd y Bwrdd **sicrwydd** ynghylch y defnydd o ddulliau marchnata cymdeithasol blaengar mewn rhannau eraill o'r sefydliad. Llongyfarchodd aelodau'r Bwrdd S3 ar ennill y wobr Drum gan nodi eu bod yn edrych ymlaen at gael y wbodaeth ddiweddaraf ar y dull gweithredu.

PHW06/2019 Cofnodion o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2019

Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2019, yn amodol ar ddiwygio'r gwallau teipograffyddol (cyf 5.1.300519).

PHW07/2019 Cofnod o Gamau Gweithredu'r Bwrdd

Nododd y Bwrdd y Cofnod o Gamau Gweithredu'r Bwrdd (cyf 5.2.300519) a'r ddau gam gweithredu agored sydd i'w cwblhau ar 1 Gorffennaf 2019 a 1 Hydref 2019. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y penderfynad i gau'r camau gweithredu y nodwyd eu bod wedi'u cwblhau.

PHW08/2019 Adroddiad y Prif Weithredwr

Derbyniodd y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr (cyf 5.3.300519)

Tynnodd TC sylw'r Bwrdd at yr ymweliad gan ddirprwyaeth Sefydliad Iechyd y Byd o swyddfa Fenis ym mis Ebrill 2019. Aeth ymlaen i grynhoi'r cyfleoedd dilynol posibl i Gymru, ac i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyfeiriodd TC at yr *Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf* a chadarnhaodd sesiwn datblygu'r Bwrdd i ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r adroddiad.

Darparwyd diweddariad gan MB ar y gwahoddiad diweddar i ddarparu cyngor i dasglu Gweinidogol y DU ar ddulliau gweithredu iechyd cyhoeddus ar atal a lleihau trais. Byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gefnogi'r Tasglu, a chydnabuwyd arwyddocâd hyn gan yr aelodau.

Rhoddodd QS y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar asesiad diweddar yr Uned Gymorth ar gyfer Ailddilysu o systemau gwerthuso ac ailddilysu meddygol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd yr adborth cadarnhaol yn cynnwys dim ond 5 Argymhelliad, gyda'r tîm yn cael canmoliaeth benodol ar ei ymgysylltiad personol uniongyrchol gyda meddygon unigol. Diolchodd y

Bwrdd i QS a Brendan Mason am eu cyfraniadau sylweddol at y canlyniad llwyddiannus hwn.

PHW09/2019 Adroddiad Integredig ar Berfformiad yn cwmpasu Diwedd y Flwyddyn, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol a Mis Un

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad ar berfformiad, a oedd yn ymgorffori adroddiad mis 12; cefndir y diweddariadau ar y cynllun gweithredol; yr adroddiad cryno ar berfformiad; a'r adroddiad blynyddol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (cyf 8.1.300519). Atgoffodd HG y Bwrdd o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i wella'n barhaus y ffordd y caiff data eu cyflwyno.

Perfformiad gweithredol
Nododd y Bwrdd y gwelliannau i'r materion perfformiad hynny a fu'n destun gwaith craffu yng nghyfarfodydd blaenorol y Bwrdd.

Gwnaeth y Bwrdd **sylwadau** ar y camau gweithredu hynny nad oeddent wedi'u cwblhau yn Chwarter 4, gan gyfeirio'n benodol at y rhai sydd i'w priodoli i'r Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant.

Esboniodd JA fod yr oedi wrth recriwtio wedi cyfrannu at y sefyllfa yn ystod y flwyddyn a rhoddodd amlinelliad o'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau gwelliannau yn 2019/20.

Soniodd TC hefyd wrth y Bwrdd am y camau sy'n cael eu cymryd ar lefel weithredol.

Datblygu Sefydliadol a Phobl
Nododd y Bwrdd y gwelliannau o ran cydymffurfio â'r Hyfforddiant Statudol a Gorfodol a diolchodd i'w cydweithwyr am eu cefnogaeth wrth gyflawni hyn.

Perfformiad ariannol
Nododd y Bwrdd y ffaith bod cyfrifon diwedd y flwyddyn wedi'u cynnwys ar yr agenda. **Cofnododd** y Bwrdd eu gwerthfawrogiad am yr holl waith caled a wnaed ar draws y sefydliad i gyflawni'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Adroddiad Blynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Derbyniodd y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a **nodwyd** y cyflawniadau canlynol:

- mwy o ymwybyddiaeth o'r 5 ffordd o weithio;
- rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran arwain y system drwy rannu profiadau a dysgu;
- y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru;
- ysgogi pobl i 'weithredu ar eu geiriau;

- yr offeryn Gwelliant Cynaliadwy i Dimau (SIFT) i helpu i ddangos tystiolaeth o newid sefydliadol;
- sicrhau bod y blaenoriaethau strategol yn cyd-fynd â'r amcanion Llesiant.

Cytunodd y Bwrdd i gynnal Adolygiad Strategol o'r Amcanion Llesiant yn yr Hydref.
Camau gweithredu: MB

Adroddiad integredig ar berfformiad Mis 1
Nododd y Bwrdd yr adroddiad ar berfformiad mis 1.

Penderfynodd y Bwrdd i gymryd **sicrwydd** o'r adroddiad perfformiad, gan nodi'r materion a godwyd uchod.

PHW10/2019 Diweddariad ar effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd, a nodwyd mai'r dyddiad newydd arfaethedig oedd 31.10.2019. (cyf 8.2.3005219)

Penderfynodd y Bwrdd gymryd **sicrwydd** o'r cynlluniau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

PHW11/2019 Diweddariad Blaenoriaeth Strategol: Marwolaeth a Disgwyliad Oes

Ymunodd CH â'r cyfarfod: 11:15

Ystyriodd y Bwrdd bapur ar Farwolaeth a Disgwyliad Oes (cyf 9.1.300519).

Esboniodd CH fod y patrwm o farwolaethau a disgwyliad oes, a oedd wedi bod yn codi ers yr Ail Ryfel Byd, wedi aros yn ddigyfnewid o 2010/11. Atgoffodd y Bwrdd o bwysigrwydd disgwyliad oes fel dangosydd iechyd y boblogaeth. Roedd y newid patrwm ers 2010/11 wedi bod yn her epidemiolegol amlwg; er ei fod wedi bod yn rhan o ffenomen ryngwladol, roedd Cymru a'r Alban wedi gweld effaith benodol yn y DU, yn yr un modd â'r UD, ar sail ryngwladol.

Nododd y Bwrdd y sefyllfa a **phenderfynwyd** trafod y mater yn fwy manwl yn ystod sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol.
Camau gweithredu: HB/SB

PHW12/2019 Safonau'r Gymraeg ac adroddiad blynyddol ar y Gymraeg 2018-19

Ymunodd SM; LO, CP-J, SP â'r cyfarfod am 11:40

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad monitro ar y Cynllun yr Iaith Gymraeg (cyf 10.1.300519) a'r adroddiad ar Safonau'r Gymraeg (cyf 1.290519)

Esboniodd PB/JW fod yr adroddiad ar Safonau'r Gymraeg wedi'i drafod yn ystod cyfarfod arbennig o'r Bwrdd a gynhaliwyd ar 29 Mai 2019, pan gafodd y Bwrdd **sicrwydd** ynghylch y cynnydd da a wneir mewn perthynas â'r Safonau; ac roedd wedi **cymeradwyo'r** cynnig i herio wyth o'r Safonau.

Llongyfarchodd y Bwrdd y tîm am y cynnydd a wnaed hyd yma.

Cyfeiriodd JW at y manteision a ddeilliodd o'r cyfarfod diweddar gyda Hyrwyddwr y Gymraeg yn Heddlu De Cymru; roedd y defnydd o bolisi sgiliau wedi creu argraff fawr ar bawb a oedd yn bresennol a disgrifiodd PB y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn yn fewnol.

Gadawodd SM; LO, CP-J, SP y cyfarfod am 12:05

PHW13/2019 Adroddiad atebolrwydd a datganiadau ariannol

Ymunodd AF â JI â'r cyfarfod am 11:50

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol (cyf 10.2.300519 a 10.3.300519)

Nododd y Bwrdd, yn dilyn ei gyfarfod ar 29 Mai 2019, fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi argymell yr adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol yn ffurfiol i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.

Nododd y Bwrdd fod Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu cyflwyno barn archwilio ddiamod, fel y nodir yn ISA 260.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018/19.

Mynegodd y Bwrdd ei werthfawrogiad i'r rhai sydd wedi bod yn ymwneud â pharatoi'r adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol.

Cytunodd HG i ddosbarthu ISA 260 a'r llythyr cynrychiolaeth yn electronig.
Camau gweithredu: HG

Gadawodd AF y cyfarfod am 12.10

PHW14/2019 Datganiad Ansawdd Blynyddol

Derbyniodd y Bwrdd y Datganiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2018/19 (cyf 10.4.300519)

Hysbysodd RBW y Bwrdd, oherwydd bod yr adroddiad yn cael ei ysgrifennu gyda'r cyhoedd mewn cof, bod yr Uwch Dîm Arwain a phob un o'r timau iechyd cyhoeddus lleol wedi darparu'r cynnwys. Roedd aelodau o'r gymuned ceiswyr

lloches a ffoaduriaid wedi darparu'r gwaith celf ar gyfer clawr yr adroddiad, gyda chefnogaeth Oasis Caerdydd. Roedd y gwaith celf yn cynrychioli dehongliad o'u bywyd yn eu gwlad enedigol a'u taith i Gymru. Byddai'r artistiaid yn derbyn gwahoddiad i fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf.

Nododd y Bwrdd hefyd fod y Datganiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer pobl ifanc yn cael ei baratoi, i'w gyflwyno yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf.

Diolchodd y Bwrdd i JI a phawb a fu'n gysylltiedig â chwblhau'r Datganiad Ansawdd.

Penderfynodd y Bwrdd **gymeradwyo** Datganiad Ansawdd Blynyddol 2018/19.

Ymunodd JL â'r cyfarfod am 12:00
Gadawodd JI y cyfarfod am 12:05

PHW15/2019 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Derbyniodd y Bwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (cyf 10.5.300519)

Nododd y Bwrdd y byddai fersiynau o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn y dyfodol (o'r Hydref ymlaen) yn darparu proses mapio sicrwydd ychwanegol. Nododd y Bwrdd hefyd y gwall ar y ddalen flaen, lle y dylai risg 5 nodi gostyngiad yn y sgôr risg bresennol o 20 i 10.

Nododd y Bwrdd y diweddariadau a ddarparwyd ers cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2019 a **phenderfynwyd** cymeradwyo'r 'dyddiadau dyledus' diwygiedig.

PHW16/2019 Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol

Derbyniodd y Bwrdd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (cyf 10.6.300519).

Nododd y Bwrdd y byddai'r Tîm Gweithredol, yn ei gyfarfod nesaf, yn debygol o isgyfeirio risg 897 ar seiberddiogelwch a phrosesu data.

Nododd y Bwrdd fod yr holl risgiau eraill yn parhau ar y trywydd cywir i gyrraedd eu targed.

Gadawodd JL y cyfarfod am 12:20

PHW17/2019 Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Cyfansawdd

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad cyfansawdd gan Gadeiryddion Pwyllgorau (cyf 10.8.300519)

Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Cyflwynodd DE yr adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mai 2019, gan

wneud sylwadau penodol am y sicrwydd rhesymol blynyddol a dderbyniwyd gan y gwasanaeth archwilio mewnol.

Gorffennodd DE drwy hysbysu'r Bwrdd am weithdy'r Pwyllgor a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis, gan nodi'r pwynt dysgu allweddol, sef mantais darparu amser a lle i'r Pwyllgor fyfyrio ar ei ddiben a'i raglen waith.

Y Pwyllgor Ansawdd, Gwella a Diogelwch
Esboniodd RBW (yn absenoldeb KE) fod y Pwyllgor wedi cydnabod yr angen i ddatblygu ymhellach ei ddull o ddarparu sicrwydd, yn arbennig mewn cysylltiad â'r fframwaith Ansawdd ac Effaith.

Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Cadarnhaodd SP fod cyfarfod cyntaf y Pwyllgor wedi'i gynnal ar 17 Ebrill a'i fod wedi mynd yn dda.

Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
Cyflwynodd JR yr adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2019, gan wneud sylwadau ar y rhaglen waith yn y misoedd nesaf; roedd hyn yn adlewyrchu'r ffordd yr oedd y pwyllgor yn datblygu. Byddai'r aelodau'n treulio amser ym mis Gorffennaf yn myfyrio ymhellach ar y rhaglen waith.

Nododd y Bwrdd fod y cynlluniau gwaith yn ddarostyngedig i newid yn ystod y flwyddyn a bod y gofrestr polisi a gweithdrefnau corfforaethol ar gael i'r Pwyllgorau graffu arni.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau.

PHW18/2019 Eitemau i'w nodi

Rhoddodd QS adroddiad llafar ar y niferoedd sydd wedi manteisio ar y brechlyn MMR (Y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela) yng Nghymru a chafodd y Bwrdd **sicrwydd** o'r briff bod y cyfraddau yn gwella ac yn gyson â gweddill y DU. Esboniodd QS, er bod rhai pocedi bach o ymwrthedd i'r brechlyn, roedd yr achosion diweddar o'r Frech Goch wedi digwydd oherwydd i'r clefyd gael ei fewnforio.

Rhoddodd QS ddiweddariad hefyd ar yr achosion diweddar o Glwy'r Pennau, sydd ar ei uchaf ers 5 mlynedd ar hyn o bryd, gan adlewyrchu'r sefyllfa ar draws y DU.

PHW19/2019 Dyddiad y cyfarfod nesaf

25 Gorffennaf 2019 Prifysgol De Cymru, Campws Dinas Casnewydd. Byddai'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn dilyn cyfarfod y Bwrdd.

Caeodd JW y cyfarfod cyhoeddus ar y pwynt hwn, ac esboniodd y rhesymau dros gynnal unrhyw gyfarfod dilynol mewn sesiwn breifat.

Daeth y Sesiwn Gyhoeddus i ben am 12:00

Cyfarfu'r Cyfarfod mewn Sesiwn Breifat i ystyried busnes o natur gyfrinachol, y byddai unrhyw gyhoeddusrwydd iddo yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960. Mae crynodeb o'r eitemau a drafodwyd wedi'u nodi isod:

Sesiwn Breifat

Dechreuodd y sesiwn breifat am 12.30

PHW20/2019 Croeso ac Ymddiheuriadau

Agorwyd y cyfarfod gan JW a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol.

Nododd y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

PHW21/2019 Datgan Buddiannau

Cafwyd datganiad o fuddiant gan QS yn yr adroddiad gan y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth (eitem 17).

PHW22/2019 Cofnodion Sesiwn Breifat y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2019

Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion (cyf PM 16.1.300519) fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

PHW23/2019 Cofnod o Gamau Gweithredu'r Bwrdd

Nododd y Bwrdd y Cofnod o Gamau Gweithredu (cyf PM 16.2.300519). **Nododd** y Bwrdd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau a **chymeradwywyd** penderfyniad i gau pob cam gweithredu.

PHW24/2019 Materion yn Codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

PHW25/2019 Adroddiad gan y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad gan y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth (PM 17.280319).

Penderfynodd y Bwrdd:

- **Nodi'r** cywiriad i becyn tâl y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus / Cyfarwyddwr Meddygol;
- **Nodi'r cais** a gyflwynwyd i'r Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd, gwerth £43,772.00.

PHW26/2019 Unrhyw Fater Brys Arall

Cadarnhaodd QS y byddai ymarfer sgrinio ac ymgyrch yn y cyfryngau yn cael eu cynnal i reoli'r achosion o TB mewn cymuned fach yn ne-orllewin Cymru.

Darparodd TC ragor o fanylion am adroddiad y Gwasanaethau Mamolaeth, i baratoi ar gyfer sesiwn datblygu'r Bwrdd ym Mehefin. Nododd yr Aelodau'r camau gweithredu sydd ar waith a bod y Tîm 1000 o Fywydau yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. **Nododd** y Bwrdd y diweddariad a sesiwn ddatblygu arfaethedig y Bwrdd.
PHW27/2019 Dyddiad ac amser Sesiwn Breifat y Bwrdd
27 Gorffennaf 2019, Ystafell 3.7, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd

Daeth y cyfarfod i ben am 13:20